17.02.20

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880506

**Erthygl i'r Wasg Press Article**

# Cân i Gymru yn nôl, nôl, nôl

Mae hi bron yr amser o'r flwyddyn ble y gall pobl Cymru ddod at ei gilydd i ddathlu diwylliant Cymraeg ac ymfalchïo yn eu Cymreictod. Ydi, mae **Cân i Gymru 2020** yn agosáu.

Gyda Elin Fflur a Trystan Ellis-Morris yn cyflwyno, caiff y gystadleuaeth ei darlledu'n fyw ar S4C o Ganolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth ar 29 Chwefror am 8.00.

Meddai Siôn Llwyd o gwmni Avanti, sy'n cynhyrchu'r rhaglen ar gyfer S4C: "Mae'r panel eleni, sef; Bryn Fôn, Georgia Ruth, Ani Glass ac Owain Roberts wedi dewis wyth can wych.

"Ond yn ogystal â chael mwynhau y caneuon gwreiddiol, newydd sbon yma, bydd Bryn Fôn yn mynd â ni nôl i'r nawdegau gyda perfformiad arbennig o *Gwlad yr Rasda Gwyn* i nodi ei bod hi'n dri deg blwyddyn ers i'r gân gipio tlws Cân i Gymru.

Dywedodd Bryn: "Ma'n ryfeddol meddwl fod deg mlynedd ar hugain wedi mynd heibio ers i Rasda fynd â hi. Mi fydd hi'n braf camu i'r llwyfan heb y pwysa o gystadlu.

"Dwi newydd ffeindio toriadau o hen bapurau newydd oedd fy Mam wedi cadw. Digwydd bod roedd *two-page spread* am Cân i Gymru 1990 yn rhestru pawb ath trwyddo. Diddorol iawn gan mod i wedi anghofio pwy arall oedd yn cystadlu. Wedi'i rhestru oedd Eryr Wen, Gareth Morlais a dwy ferch o Pen-Llyn. Ar y pryd, doedd gen i ddim syniad y bysa un o'r merchaid hynny yn dod i ganu gyda Sobin a'r Smaeliaid ychydig yn ddiweddarach.

"Roedd hi'n dipyn o dâsg dewis wyth cân gan fod lot o geisiadau da. Mae'r pedwar ohonom yn cynrychioli gwahanol fathau o gerddoriaeth, felly dwi'n credu fod dipyn o drawsdoriad. Mae na amrywiaeth da, rhywbeth i bawb. Fydd hi'n gystadleuaeth agos iawn dwi'm yn ama gan fod sawl cân yn sefyll allan."

Yr wyth cân sy'n cystadlu am wobr o £5,000 a'r cyfle i gynrychioli Cymru yn yr Ŵyl Ban-geltaidd eleni yw: *Arianrhod* gan Beth Celyn; *Adref yn ôl* gan Tesni Jones; Sara Williams, Roo Walker; *Dawnsio'n Rhydd* gan Ben Hamer a Rhianna Loren; *Pan Fyddai'n 80 Oed* gan Rhydian Meilir; *Morfa Madryn* gan Alistair James; *Y Tir a'r Môr* gan Rhydian Meilir; *Cyn i'r Lleni Gau* gan Gruffydd Wyn a Tim Goodcare ac *Anochel* gan Aled Mills.

Ymhlith yr wyth act bydd sawl wyneb cyfarwydd gyda rhai eisoes wedi cystadlu ac ambell un wedi ymddangos ar *Britain's Got Talent* a *The Voice*. Efallai y bydd rhai o'r caneuon yn gyfarwydd hefyd gan fod BBC Radio Cymru am eu chwarae ac rhoi cyfle cynnar i wrando.

Mae Siôn am eich atgoffa fod ffawd y cystadleuwyr yn eich dwylo chi. "Cofiwch godi'r ffôn a pleidleisio. Neu pam ddim bod yn ran o'r gynulleidfa ar y noson? Ma'n rhad ac am ddim, yr oll sydd angen gwneud yw cysylltu â swyddfa docynnau Canolfan y Celfyddydau ar 01970 623232."

Os ydych chi am drydar am y gystadleuaeth eleni, cofiwch ddefnyddio'r hashnod #CiG2020. Bydd manylion am sut i bleidleisio yn cael eu cyhoeddi ar y rhaglen, a'r gân fuddugol yn cael ei chyhoeddi yn fyw ar S4C yn hwyrach yn y noson.

**Cân i Gymru 2020**
**Nos Sadwrn 29 Chwefror 8.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar gael ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Avanti Media ar gyfer S4C.**

**Nodiadau i olygyddion:**

Mwy o fanylion am gyfansoddwyr yr wyth can fuddugol:

**Aled Mills** (*Anochel)* sy'n wreiddiol o Gaerffili, ond bellach yn byw yng Nghaerdydd gyda'i wraig a dau o blant. Mae'n gweithio fel cynhyrchydd teledu i gwmni teledu Boom Cymru.

**Alistair James** *(Morfa Madryn)* yn wreiddiol o Lanfairfechan ond bellach yn byw yn Glan Conwy. Gweithio fel cyflwynydd radio ar sioe frecwast Capital FM, sy'n cael ei darlledu o Wrecsam. Cyn hynny roedd ar Heart Radio.

**Ben Hamer** (*Dawnsio'n Rhydd)* yn wreiddiol o Rydaman ond bellach yn byw yng Nghaerdydd. Ar ôl graddio o gwrs BA Theatr a Drama yn yr Atrium, Caerdydd yn 2013, mae nawr yn gweithio fel actor a teithio gyda sioeau Theatr mewn Addysg o gwmpas Prydain, recordio trosleisiau, perfformio mewn pantos ac wedi serennu yn y ffilm *Rise of The Warrior Queen* (2017). Mae wedi bod yn rhan o gôr 'Only Boys Aloud' ac wedi perfformio ar BGT (Britains Got Talent).

**Beth Celyn** (*Arianrhod*) yn wreiddiol o Ddinbych ond nawr yn byw yng Nghaerdydd. Gwnaeth Beth astudio Llenyddiaeth Saesneg yn Kings College London cyn derbyn gradd Meistr mewn Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Bangor yn 2017.

**Gruff Wyn** (*Cyn i'r Lleni Gau)* o Amlwch sydd wedi bod yn perfformio yn yr Eisteddfod yn unigol a gyda chôr ieuenctid a theatr Môn ers blynyddoedd maith. Buodd Gruff ar BGT (Britains Got Talent). yn 2019, llwyddodd i gyrraedd y ffeinal a derbyn Golden Buzzer Amanda Holden. Meddai Gruff "Rwyf wedi delio gyda beirniadaeth Simon Cowell, felly rwy'n barod am y gystadleuaeth".

**Rhydian Meilir** (*Y Tir a'r Môr)* ffarmwr o Gemaes, Ynys Mon, yn wreiddiol, ond bellach yn fyfyriwr yng Nghaerdydd yn astudio cwrs meistr cyfansoddi ym Mhrifysgol De Cymru (Atrium Caerdydd). Mae wedi cystadlu yn Cân i Gymru dwywaith o'r blaen ac wedi dod yn ail dwywaith (2012 a 2019). Mae dau o ganeuon Rhydian wedi cyrraedd yr wyth olaf eleni felly "Mae'r ods yn uwch eleni!".

**Tesni Jones, Sara Williams a Roo Walker** *(Adref yn ôl).*

Roedd **Sara** a **Tesni** wedi cwrdd yn y coleg a sefydlu'r grwp 'Pheena' gyda eu ffrind Ceri.

Mae **Sara** yn byw yn Ynys Môn ac yn gynorthwy-ydd dysgu yn Ysgol Goronwy Owen. Mae hi wedi perfformio sawl gwaith yr Eisteddfod a gydag Ysgol Glanaethwy a Choleg drama.

Mae **Tesni** yn byw yn Llundain ac ei syniad hi oedd cystadlu. Mae Tesni yn wyneb cyfarwydd i Cân i Gymru gan iddi ennill yn 2011, dod yn ail yn 2009, perfformio cân a ddaeth yn ail gyda'r band Pheena yn 2002 ac hefyd wedi cymryd rhan gyda'r gân *Cariad Pur* yn 2015 â ysgrifennwyd gan Pheena a'i pherfformio gan Catrin Hopkins.

Ymddangosodd Tesni ar The Voice UK yn 2018 a llwyddodd i ennill le yn nhîm Jennifer Hudson. Mae hi wedi gweithio gyda Sir Tom Jones, Gary Barlow, Bryan Adams ac wedi canu cefndir i Heather Small, Take That a Craig David.

Mae **Roo** yn byw yn Sheffield ond gweithio lot gyda Tesni. Dyw e ddim yn siarad Cymraeg, ond ma ei deulu yn dod o Gricieth.

**Pheena:**

Grŵp sydd wedi perfformio gig gyda Blue a Liberty X yn Peterborough i dros 15,000 o bobol ac wedi cefnogi Steps yng Nghwyl Gobaith yn 2012. Maent i gyd yn brysur iawn gyda'i teuluoedd erbyn nawr, ond yn gobeithio bydd aduniad mawr cyn hir. Mae'r aelod arall o'r band, Ceri, yn brysur yn ffilmio gyda Coronation Street ar hyn o bryd.

17.02.20

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Article**

# Cân i Gymru songwriting contest returns

It's nearly that time of year again, when the people of Wales come together to celebrate Welsh culture and take pride in their heritage. Yes, **Cân i Gymru 2020** (A Song for Wales) is fast approaching.

Presented by Elin Fflur and Trystan Ellis-Morris, the competition will be broadcast live on S4C from the Aberystwyth Arts Centre on February 29 at 8.00.

Siôn Llwyd from Avanti, who produces the program for S4C, said: "This year's panel; Bryn Fôn, Georgia Ruth, Ani Glass and Owain Roberts have chosen eight great songs.

"But as well as being able to enjoy these original, brand new songs, Bryn Fôn will take us back to the nineties with a special performance of *Gwlad yr Rasda Gwyn* to mark 30 years since the iconic song won the **Cân i Gymru** trophy.

Bryn said: "It's unbelievable to think that 30 years has gone by since *Rasda* won. I'll be glad to step onto the stage without having the pressure of competing.

"I've just found old newspapers clippings that my mum had kept, they included a two-page spread about Cân i Gymru 1990, listing the songs and everyone that took part. It was really interesting because I had forgotten most of it. Also on the list were Eryr Wen, Gareth Morlais and two girls from Pen-Llyn. Little did I know that one of those ladies would come to sing with *Sobin a'r Smaeliaid* a little while later.

"Choosing the final eight songs was a tough task as there were a lot of good entries. All four of us come from different musical backgrounds, so there's a bit of a cross section and something for everyone. I think it's going to be a very close competition because a few of the songs stand out."

The eight songs competing for the £5,000 prize and the chance to represent Wales at this year's Pan Celtic Festival are: *Arianrhod* by Beth Celyn; *Adref yn ôl* by Tesni Jones; Sara Williams, Roo Walker; *Dawnsio'n Rhydd* by Ben Hamer and Rhianna Loren; *Pan Fyddai'n 80 Oed* by Rhydian Meilir; *Morfa Madryn* by Alistair James; *Y Tir a'r Môr* by Rhydian Meilir; *Cyn i'r Lleni Gau* by Gruffydd Wyn and Tim Goodcare and *Anochel* by Aled Mills.

There will be several familiar faces among the eight acts as some have competed before and some have appeared on *Britain's Got Talent* and *The Voice*. Some of the songs may even be familiar as BBC Radio Cymru will play them prior to the competition.

Siôn wants to remind you that the fate of the competitors is in your hands. "Remember to pick up the phone and vote or be part of the audience on the night. It's free to attend, all you need to do is contact the Arts Centre box office on 01970 623232."

If you want to tweet about this year's competition, use the hashtag #CiG2020. Details of how to vote will be announced on the programme, and the winning song will be announced live on S4C later in the evening.

**Cân i Gymru 2020**
**Saturday 29 February 8.00, S4C**
**English subtitles**
**Available on S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms**
**An Avanti Media production for S4C**

**Note to editors**

Further details on the composers of the eight winning songs:

**Aled Mills** (*Anochel)* originally from Caerphilly, but now lives in Cardiff with his wife and two children. He works as a television producer for Boom Cymru.

**Alistair James** (*Morfa Madryn*) originally from Llanfairfechan but now lives in Glan Conwy. Currently works as a radio presenter on the Capital FM breakfast show, which is broadcast from Wrexham. Before that he was on Heart Radio.

**Ben Hamer** (*Dawnsio'n Rhydd)* Originally from Ammanford but now living in Cardiff. After graduating from a BA Theatre and Drama course at the Atrium, Cardiff in 2013, he now works as an actor and toured with Theatre in Education shows around Britain, recorded voice overs, performed in pantos and starred in the film Rise of The Warrior Queen (2017). He has been part of the 'Only Boys Aloud' choir and has performed on Britain's Got Talent.

**Beth Celyn** (*Arianrhod*) originally from Denbigh but now lives in Cardiff. Beth studied English Literature at Kings College London before receiving a Masters' Degree in Creative Writing at Bangor University in 2017.

**Gruff Wyn** (*Cyn i'r Lleni Gau)* from Amlwch who has been performing at the Eisteddfod as an individual and with Anglesey youth choir and theatre for many years. Gruff reached the final of Britain's Got Talent in 2019 and received Amanda Holden's Golden Buzzer. Gruff said "I've dealt with Simon Cowell's criticism, so I'm ready for the competition".

**Rhydian Meilir** (*Y Tir a'r Môr)* originally from Cemaes, Anglesey, but now studying a Masters in Composing at the Atrium, University of South Wales (Cardiff). He has competed in Cân i Gymru twice before and has been runner-up (2012 and 2019). This year, two of Rhydian's songs have made it to the final eight so "The odds are higher this year!".

**Tesni Jones, Sara Williams and Roo Walker** (*Adref yn ôl*).

Sara and Tesni met at college and set up the 'Pheena' group with their friend Ceri.

**Sara** lives in Anglesey and is a teaching assistant at Ysgol Goronwy Owen. She has performed many times at the Eisteddfod and with Ysgol Glanaethwy and drama College.

**Tesni** lives in London and her idea was to compete. Tesni is a familiar face to Cân i Gymru. She appeared on The Voice UK in 2018 and secured a place in Jennifer Hudson's team. She has worked with Sir Tom Jones, Gary Barlow, Bryan Adams and has sung backing vocals for Heather Small, Take That and Craig David.

**Roo** lives in Sheffield but works a lot with Tesni. He doesn't speak Welsh, but his family comes from Cricieth.

**Pheena:**

A group that has performed a gig with Blue and Liberty X in Peterborough for over 15,000 people and supported Steps in 2012. They are all very busy with their families by now but hope to have a big reunion soon. The other band member, Ceri, is currently filming with Coronation Street.